Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl247

**Amseru: Brys**

**Teitl: Treialu capasiti uwch o ran y gwasanaeth ar gyfer unigolion ifainc coll**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn ystod y pandemig, bu'r Cyfarwyddwr Comisiynu'n gweithio'n agos â darparwyr gwasanaethau comisiwn i fonitro'r effaith ar alw am wasanaethau ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mae'r gwasanaeth ar gyfer unigolion ifainc coll wedi profi cynnydd o ran nifer a chymhlethdod yr achosion sy'n cael eu cyfeirio. Ar hyn o bryd, mae dros 100 o gyfeiriadau bob chwarter. Mae gan bobl ifainc anghenion, peryglon ac ymddygiadau mwy cymhleth, a bu'r duedd hon yn gyson dros y 12 mis diwethaf. Yn ystod sesiynau ôl-drafod a chyflafareddu, gwelir fod nifer cynyddol o bobl ifainc mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae gan y bobl ifainc hyn iechyd meddwl a lles gwael, maent mewn mwy o berygl o ddioddef neu ddod i gysylltiad â chamfanteisio, ac mae mwy o anghenion ganddynt mewn perthynas â hunaniaeth o ran rhywedd.

Mae hyn yn cynyddu'r galw ar y tîm o ran amser a dreulir gyda phobl ifainc a gofynion diogelu, cyfeirio a chyswllt proffesiynol.

Tîm bach o 2.5 aelod staff cyfwerth â llawn amser ar draws ardal Dyfed-Powys yw'r tîm ar hyn o bryd, sydd yn heriol o ran cadernid. Argymhellir cynyddu'r capasiti i 3 aelod staff cyfwerth â llawn amser am gyfnod o 12 mis, gan gychwyn ym mis Ionawr 2022, er mwyn mynd i'r afael â'r galw presennol a phrofi pa un ai a yw hon yn duedd gynyddol tymor hirach. Bydd hyn am gost o £13,000 sydd i'w ariannu drwy danwariant yn y gyllideb gomisiynu bresennol.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso bob chwarter yn ystod cyfarfodydd adolygu cytundebau chwarterol, â phenderfyniad yn cael ei wneud cyn y cyfnod 12 mis ynglŷn â gofynion yn y dyfodol.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cymeradwyo cynllun peilot 12 mis wedi'i ariannu am gost o £13,000 i gynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth ar gyfer unigolion ifainc coll, gan gynnwys profi pa un ai a yw'r cynnydd o ran galw'n rhan o duedd tymor hirach yn dilyn y pandemig.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 17/12/2021**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER